## CANLLAWIAU I AELODAU AR WEITHREDU EU HAWLIAU FEL UNIGOLION MEWN PERTHYNAS Â GWAITH Y CYNGOR
## CYNGOR GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

1. Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau a phrotocolau yn rhoi arweiniad i aelodau ynglŷn â sut i weithredu eu dyletswyddau fel aelodau o'r Cyngor. Ond beth am y sefyllfa pan mae aelod yn angen cysylltu hefo'r Cyngor fel unigolyn preifat yn hytrach nag aelod?

2. Mae'r Cod yn berthnasol i aelod wrth weithredu fel aelod neu yn arddel neu greu'r argraff eu bod yn gweithredu fel cynghorydd. Byddent hefyd yn ddarostyngedig i'r Cod yn eu bywyd ehangach petaent yn dwyn anfri ar y swydd neu yn camddefnyddio eu sefyllfa i gael mantais iddynt hwy neu eraill.

3. Mae aelodau'r Cyngor fel eu hetholwyr, yn ddinasyddion o'r ardal ac mae'n anorfod y bydd achlysuron yn codi ble mae gofyn i'r aelod arddel hawliau preifat fel unigolyn. Gall hyn fod am amryw o resymau. Gall yr aelod fod yn gweithio fel contractwr yn cynnig gwasanaethau i'r Cyngor, yn ysgrifennydd mudiad gwirfoddol yn ymgeisio am grantiau, yn trefnu gwasanaethau gofal ar ran perthynas, yn gwrthwynebu cais cynllunio drws nesaf i'w g/chartref.

4. Yn yr ysbryd o geisio taro'r balans cywir cynigir y cyngor isod i aelod sy'n wynebu gwrthdaro rhwng ei fuddiannau preifat a'i rôl fel cynghorydd.

5. Awgrymir yn y lle cyntaf y dylai'r aelod geisio ei orau i osgoi rhoi ei hun mewn sefyllfa lle all gwrthdaro o'r fath godi. Dylid ystyried a oes raid cymryd y cam fyddai'n creu gwrthdaro neu a oes rhywun arall all weithredu yn ei le. Fe ddylai hyn fod yn bosibl, er enghraifft, os mai cynrychioli corff neu fudiad arall y mae'r aelod yn hytrach na buddiannau personol ef neu ei deulu.

6. Os nad oes modd osgoi'r sefyllfa a'i bod yn anorfod bod yr aelod yn dod i gysylltiad â'r Cyngor fel unigolyn cynigir y camau isod fel rhai priodol i'w cymryd

   - Datgan y buddiant a'i natur yn glir ar y cyswllt cyntaf a bod yr aelod yn cysylltu mewn capasiti preifat yn unig wrth ysgrifennu at y Cyngor neu gysylltu mewn ffordd arall.
   - Os yw'r mater wedi codi drwy'r Cyngor yn cysylltu a'r aelod (e.e. ymgynghoriad cynllunio) cynghorir aelodau i ddatgan y buddiant a'i natur yn glir ar ddechrau unrhyw ymateb.
   - Byddai'n fanteisiol i unrhyw gais am wasanaeth gael ei gofnodi'n ysgrifenedig.
   - Wrth ysgrifennu at y Cyngor (neu unrhyw un arall) fel unigolyn ni ddylid defnyddio papur swyddogol y Cyngor na chyfeiriad e-bost "cynghorydd" – byddai hynny'n amhriodol ac ni fyddai'n caniatáu dirnad pa het mae'r aelod yn ei gwisgo.
   - Wrth gysylltu â'r Cyngor fel unigolyn ni ddylid defnyddio'r statws "Cynghorydd" i sicrhau mynediad i swyddogion na fyddai ar gael i aelodau'r cyhoedd .

7. Gan ddibynnu ar natur y cyswllt gall fod Adrannau yn gosod trefniadau penodol mewn lle i ddelio a'r cyswllt. Byddai hyn er sicrhau priodoldeb a thryloywder y trefniadau er gwarchod pawb.

8. Os oes unrhyw aelod yn ansicr o'i sefyllfa a'i hawliau mewn perthynas â gweithredu fel unigolyn fe'i hanogir i ofyn cyngor y Swyddog Monitro ymlaen llaw.

9. Darperir y canllawiau hyn fel cyngor i aelodau gan y Pwyllgor Safonau. Nid oes iddynt yr un grym a'r Cod Ymddygiad ac atgoffir aelodau mai mater iddynt hwy yn bersonol yw dod i gasgliad ynglŷn ag unrhyw fuddiannau sydd ganddynt.